



Cais am orchymyn meddiannu interim

Yn	
Rhif yr hawliad	
Rhif Cyfrif Ffi	

Enw a chyfeiriad llawn yr hawlydd

Cyfeiriad ar gyfer cyflwyno (os yw'n wahanol i'r uchod) Cyf / Rhif ffôn

Enw'r diffynnydd (os yw'n hysbys, gan gynnwys teitl e.e. Mr, Mrs neu Miss) a'i gyfeiriad



Mae'r hawlydd yn hawlio meddiant o

ar y sail fod gan yr hawlydd hawl ddi-oed i feddiannu'r eiddo a bod yr unigolyn/ unigolion sydd yn meddiannu'r eiddo yn gwneud hynny heb ganiatâd.

Cychwynnwyd y cais ar

Bydd y llys yn ystyried a ddylid gwneud gorchymyn meddiannu interim ar

am am/pm

yn

Cyflwyno

I'r rhybudd hwn fod yn ddilys, **rhaid** ei gyflwyno cyn am/pm ar dydd o 20 . Rhaid ei **osod** ar brif ddrws yr adeilad neu ran amlwg arall o'r adeilad ac, os oes modd, ei roi drwy'r blwch llythyrau mewn amlen dryloyw wedi'i selio a'i chyfeirio at 'y preswylwyr'.

Hefyd, gellir ei osod ar bolion yn y ddaear mewn rhannau amlwg o'r tir cyffiniol os yw hynny'n briodol.

Rhowch amser, diwrnod a dyddiad sydd 24 awr wedi amser gwneud y gorchymyn

Beth ddylech chi ei wneud

- os nad oes gennych hawl i feddiannu'r eiddo, rhaid i chi adael.
- os ydych chi'n credu bod gennych hawl i feddiannu'r eiddo neu os ydych chi'n credu nad oes gan y ceisydd hawl i orchymyn meddiannu interim, gallwch ffeilio datganiad tyst yn y llys cyn y dyddiad a'r amser a ddangosir ar y rhybudd hwn. Mae'r ffurflen y mae'n rhaid i chi ei defnyddio wedi ei hatodi i'r rhybudd hwn.
- os ydych angen cyngor dylech fynd i weld cyfreithiwr, Canolfan Gyngor Cyfreithiol neu Ganolfan Gyngor ar Bopeth. Ni all staff y llys roi cyngor cyfreithiol.

Os byddwch chi'n rhoi gwybodaeth sy'n anwir neu'n gamarweiniol yn eich datganiad tyst, byddwch yn euog o gyflawni trosedd ac o'ch cael yn euog, fe ellid eich anfon i garchar a/neu eich dirwyo.

Beth all ddigwydd nesaf?

- os bydd y llys yn gwneud gorchymyn meddiannu interim, bydd gennych 24 awr o'r adeg y caiff ei gyflwyno arnoch i adael yr eiddo. Fe'i gyflwynir arnoch yn yr un ffordd ag y cyflwynwyd y rhybudd hwn - nid oes rhaid ei gyflwyno i chi'n bersonol. Rhaid cyflwyno'r gorchymyn meddiannu interim o fewn 48 awr i'r llys ei gymeradwyo.
- ar ôl i chi adael yr eiddo, efallai y gallwch wneud cais i'r llys i'r gorchymyn meddiannu interim gaei ei roi o'r naill du. Os ydych yn dymuno gwneud hynny, dylech fynd i weld cyfreithiwr, Canolfan Gyngor Cyfreithiol neu Ganolfan Gyngor ar Bopeth.
- os na fyddwch chi'n cydymffurfio â gorchymyn meddiannu interim (drwy adael yr eiddo o fewn 24 awr), gallech gael eich arestio ac o'ch cael yn euog eich anfon i garchar a/neu eich dirwyo.
- bydd dyddiad ar gyfer gwrandawriad (pan fydd yr hawliad am feddiant yn cael ei ystyried) wedi'i nodi ar y gorchymyn meddiannu interim. Mae gennych hawl i fynychu'r gwrandawriad hwnnw.
- os nad yw'r llys yn gwneud gorchymyn meddiannu interim, fe gewch wybod hynny yn ysgrifenedig.

Rhagor o Wybodaeth

- mae taflen ar gael am ddim o swyddfa unrhyw lys sirol.

Datganiad i gefnogi cais i feddiannu ac am orchymyn meddiannu interim

Paragraff 1

Rhowch eich enw llawn, cyfeiriad a galwedigaeth yr unigolyn sy'n gwneud y datganiad hwn.

1

Rwy'n

gwneud y datganiad hwn i gefnogi fy hawliad am feddiant ac am orchymyn meddiannu interim

Paragraff 2

Rhowch gyfeiriad yr eiddo

2

Mae gennyf i

hawl i feddiannu yn ddi-oed

Rhowch ddisgrifiad o'r eiddo (t, fflat, siop ayyb.)

sydd yn

ac mae gennyf yr hawl hon ers

Paragraff 3

Rhowch fanylion y prawf o'r buddiant (gweithredoedd, prydles ayyb.)

3

Mae'r prawf o'r buddiant sydd gennyf yn yr eiddo ar ffurf

Paragraff 4

Nodwch y dyddiad pan wnaethoch ganfod fod yr eiddo yn cael ei feddiannu yn anghyfreithlon. Esboniwch sut y gwnaethoch ganfod hynny, a pham nad oedd modd i chi ganfod hynny'n gynt.

4

Cefais wybod am y tro cyntaf bod yr eiddo wedi'i feddiannu ar

y dydd o 20 trwy

ac nid oedd yn rhesymol disgwyl i mi wybod hynny yn gynt, oherwydd

5

Aeth y diffynnydd(diffynyddion) i mewn i'r eiddo heb fy nghaniatâd i a heb ganiatâd neb a oedd, ar ddyddiad y mynediad, â hawl di-oed i feddiannu'r eiddo. Ers y dyddiad hwnnw, nid wyf wedi rhoi unrhyw ganiatâd o'r fath i'r diffynnydd(diffynyddion).

6

Ar wahân i'r diffynnydd(diffynyddion) a enwir yn y cais hwn, (mae) (nid oes) yna feddianwyr eraill nad wyf yn gwybod eu henwau.

7

(Mae yna) (Nid oes yna) bobl eraill sydd â hawl i feddiannu rhannau eraill o'r adeilad sydd yn cynnwys yr eiddo hwn (a'u henwau yw:)

8

Yr wyf trwy hyn yn ymrwmo i'r canlynol:

(a) i roi ei le yn ôl i'r diffynnydd, os gorchmynnir hynny gan y llys

(b) i dalu pa bynnag iawndal y gorchmynnir gan y llys

AC

(c) i beidio â difrodi'r eiddo wrth ddisgwyl am y penderfyniad terfynol ynghylch yr hawliad am feddiant

(d) i beidio â chaniatáu hawl i feddiannu i neb arall

(e) i beidio â difrodi na chael gwared â dim o eiddo'r diffynnydd

Paragraff 6

Dilêwch os nad ydych chi'n gwybod enw yr un o'r meddianwyr.

Paragraff 7

Nodwch enwau y bobl hynny, a pha rannau o'r adeilad sydd yn eu meddiant. Dilêwch y geiriau sydd mewn cromfachau fel sy'n briodol.

Paragraff 8

Wrth benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn meddiannu interim, rhaid i'r llys ystyried a ydych chi wedi rhoi ymrwymadau ai peidio. Dilêwch unrhyw ymrwymadau nad ydych yn fodlon rhoi.

9

Gofynnaf i'r llys ganiatáu gorchymyn meddiannu interim i mi ar gyfer yr eiddo a ddisgrifir ym mharagraff 2.

Gofynnaf hefyd i'r llys ganiatáu i mi feddiannu'r eiddo.

Datganiad Gwirionedd

I Deallaf y gellir dwyn achos dirmyg llys yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad anwir, neu sy'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen a ddilysir gan ddatganiad gwirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.

Credaf fod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon yn wir.

Creda'r hawlydd fod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon yn wir. **Fe'm hawdurdodir** gan yr hawlydd i lofnodi'r datganiad hwn.

Llofnod

Hawlydd

Cyfaill cyfreitha (pan fo'r hawlydd yn blentyn neu'n glaf)

Cynrychiolydd cyfreithiol yr hawlydd fel y'i diffinnir gan CPR 2.3(1))

Dyddiad

Diwrnod

Mis

Blwyddyn

Enw llawn

Enw cwmni cynrychiolydd cyfreithiol yr hawlydd

Os ydych yn lofnodi ar ran ffymr neu gwmni, nodwch y safle neu'r swydd a ddelir